Community Housing Cymru

# Cyllideb y Deyrnas Unedig 2023

## Cyflwyniad

Mae'r datganiad cyllidol hwn yn nodi newidiadau sylweddol yng ngwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar wasanaethau cyhoeddus a threthiant. Mae'r OBR yn rhagweld na aiff y Deyrnas Unedig i ddirwasgiad technegol eleni, gan wynebu crebachiad o 0.2%. Mae'r amcanestyniadau a adroddwyd yn rhagweld y bydd chwyddiant yn gostwng o 10.1% i 2.9% erbyn diwedd 2023.

Mae'r gyllideb yn amlinellu tair prif flaenoriaeth San Steffan i haneru chwyddiant, tyfu'r economi a chael dyled i ostwng. Mae'r papur gwybodaeth hwn yn rhoi penawdau allweddol ar faterion o berthnasedd neilltuol i gymdeithasau tai a'u tenantiaid. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd pob cyhoeddiad yn weithredol i Gymru; rhagwelir ymateb gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt polisïau a ddatganolwyd i Gymru, tebyg i addysg.

## Costau byw

Cymorth gyda biliau ynni

Cyhoeddodd y Canghellor y bydd cymorth biliau ynni yn parhau ac y caiff y Warant Prisiau Ynni (EPG) sy'n gostwng cap o £2,500 ar filiau, yn cael ei ymestyn am dri mis pellach tan fis Mehefin 2023. Diddymwyd y cynnydd o £500 a fwriadwyd mewn biliau ynni cyfartalog.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn darparu cyfradd newydd penodol i'r sector i gwsmeriaid domestig rhwydwaith gwres y Deyrnas Unedig a gaiff ei gosod ar lefel i sicrhau nad yw'r cwsmeriaid hyn yn profi biliau ynni anghymesur o uchel dan y Cynllun Gostyngiad Biliau Tanwydd na chwsmeriaid dan yr EPG.

Diogelu Busnesu

Caiff y cynllun Cytundeb Newid Hinsawdd ei ymestyn am ddwy flynedd i roi rhyddhad treth o £600 miliwn i fusnesau cymwys ar fesurau effeitholrwydd ynni.

Mesuryddion blaendalu

Mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi mesurau amddiffyn i gefnogi'r 4 miliwn o aelwydydd ar fesuryddion blaendalu. Cyhoeddodd y Canghellor y bydd costau mesuryddion blaendalu yn debyg i rai ar gyfer cwsmeriaid debyd uniongyrchol tebyg nes daw'r EPG i ben. Mae hyn yn ychwanegol at waharddiad presennol Ofgem ar osod fesuryddion blaendalu drwy orfodaeth a redodd tan ddiwedd mis Mawrth.

Cyhoeddodd y Llywodraeth ymrwymiad í edrych tu hwnt i ddiwedd yr EPG a sicrhau y daw premiwm mesuryddion blaendalu i ben yn barhaol. Nododd y Canghellor fod y llywodraeth yn gyffredinol gefnogol i waith parhaus Ofgem i ddileu costau mesuryddion blaendalu ac mae'n aros adroddiad ar unrhyw opsiynau rheoleiddiol ychwanegol yn cynnwys opsiynau am ddod â phremiwm tâl sefydlog mesuryddion blaendalu i ben.

**Ein hymateb**

Rydym yn falch i weld y Canghellor yn cadarnhau heddiw y byddir yn dod â chostau mesuryddion blaendalu i fod yn debyg i'r costau i gwsmeriaid debyd uniongyrchol. Yn adroddiad Amser i Weithredu  y llynedd, fe wnaethom alw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ostwng pwysau costau ynni ar denantiaid tai cymdeithasol Cymru.

Mae tenantiaid tai cymdeithasol yn dal i wynebu costau ynni uchel ar adeg pan ddaw'r Cynllun Cymorth Biliau Ynni i i ben. Er y bydd parhad y cynllun am 3 mis arall yn rhoi peth cymorth i denantiaid tai cymdeithasol, byddai creu tariff cymdeithasol ar gyfer aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn rhoi'r diogeliad tymor hirach sydd ei angen ar gyfer aelwydydd incwm isel. Rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i weithio gyda Ofgem i ddatblygu cynigion ar gyfer tariff cymdeithasol ar filiau ynni.

Sylweddolwn hefyd oblygiadau'r gostyngiad yn y cymorth a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y Cynllun Gostyngiad Biliau Ynni, a byddwn yn parhau i weithio gydag aelodau i benderfynu'r effaith.

# Llesiant

Roedd y Canghellor yn awyddus i hon gael ei gweld fel cyllideb 'nôl i'r gwaith', gyda chyflwyno newidiadau allweddol ar gyfer llesiant a chyflogaeth. Mae'r gyllideb yn dyrannu cyfanswm o £3.1bn y flwyddyn erbyn 2024-25 i helpu cael mwy o bobl yn ôl i gyflogaeth.

Costau Credyd Cynhwysol

Cyhoeddodd y Canghellor fesurau i gynyddu cosbau ar gyfer rhai ar y Credyd Cynhwysol heb gyflwr iechyd, grŵp o tua dwy filiwn o bobl, nad ydynt yn manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth na'n cyrraedd trothwyon chwilio am swydd.

Ar gyfer y rhai sy'n gweithio ychydig o oriau, caiff y Trothwy Enillion Gweinyddol ei gynyddu o 15 awr i 18 awr o'r Cyflog Byw Cenedlaethol i unigolion, felly bydd unrhyw un sy'n gweithio llai na hyn o oriau yn derbyn mwy o hyfforddiant a system amodau fwy trwyadl.

Costau Gofal Plant Credyd Cynhwysol

Caiff costau gofal plant eu talu ymlaen llaw i rieni ar y credyd cynhwysol sydd eisiau cynyddu eu oriau gwaith, gan gynyddu'r uchafswm y gallant ei hawlio gan bron 50%.

Diwygio Budd-daliadau Anabledd

Cyhoeddodd y Canghellor raglen 'Cymorth Cynhwysol', cynllun gwirfoddol newydd fydd yn darparu hyd at £4000 y person i gynorthwyo unigolion gydag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor i ganfod swydd. Bydd yn cyllido hyd at 50,000 o bobl y flwyddyn.

Ar gyfer y rhai a orfodir i adael eu gwaith oherwydd problemau gyda iechyd corfforol neu iechyd meddwl, darparwyd £400 miliwn i gynyddu yr adnoddau iechyd meddwl a cyhyrysgerbydol sydd ar gael ac ehangu'r cynllun Lleoliad a Chymorth Unigol.

Pobl Dros 50 oed

Bydd strategaeth ‘MOT Canol Bywyd’ yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gweld cynnydd mewn capasiti er mwyn darparu arweiniad ariannol iechyd a gyrfa. Bydd nifer y bobl dros 50 ar y credyd cynhwysol fydd yn derbyn y gwasanaeth yn cynyddu o 8000 i 40,000 y flwyddyn.

**Ein hymateb**

Rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i weithredu i sicrhau fod y system llesiant yn rhoi rhwyd ddiogelwch ddigonol fel y gall tenantiaid tai cymdeithasol Cymru fforddio talu am fwyd a hanfodion sylfaenol eraill. Ni fydd gwneud dim ond codi budd-daliadau yn unol â chwyddiant yn ateb y diffyg digonolrwydd sy’n bodoli o fewn lwfans safonol y Credyd Cynhwysol, a’r gwallau sy’n bodoli gyda’r cap ar fudd-daliadau. Yn ychwanegol, drwy greu cosbau ychwanegol ar gyfer hawlwyr mae’r Llywodraeth mewn perygl o gynyddu’r caledi ariannol sy’n wynebu tenantiaid tai cymdeithasol Cymru.

# Cyllid Llywodraeth Cymru

Bydd £180 miliwn ar gael i Lywodraeth Cymru, ynghyd â £320 miliwn i Lywodraeth yr Alban a £132 miliwn i Ogledd Iwerddon. Bydd hefyd £20 miliwn ar gael i Lywodraeth Cymru i adfer torddwr Caergybi.

# Cyhoeddiadau eraill

Pensiynau

Amlinellodd y Canghellor gynlluniau i ddileu cymhellion i feddygon a staff eraill y Gwasanaeth Iechyd Gwladol weithio llai o oriau neu i ymddeol yn gynnar. Dywedodd clinigwyr y GIG fod costau treth pensiwn na fedrir eu rhagweld yn eu hatal rhag aros yn y GIG. Mae’r Canghellor felly wedi cynyddu lwfans di-dreth blynyddol pensiynau o £40,000 i £60,000.

Diddymwyd y lwfans gydol oes, oedd yn flaenorol yn £1 miliwn. Mae hyn yn anelu i atal 80% o feddygon y GIG rhag gorfod talu treth arno a rhoi cymhelliant i bobl aros mewn gwaith yn hirach.

Gofal Plant

Mae’r gyllideb yn gobeithio diwygio’r system gofal plant yng Nghymru. Mae cynllun cyfatebol Cymru ar agor i blant 3 neu 4 oed gyda hyd at 30 awr o addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant ar gael i’r rhai mewn addysg neu gyflogaeth. Bydd y newidiadau yn Lloegr yn cynnwys rhai 1-2 oed.

Tanwydd

Cafodd y cynnydd arfaethedig mewn treth tanwydd ei rewi am y flwyddyn ariannol nesaf a chadwyd y 5c cap tanwydd.

Buddsoddiad mewn ynni amgen

Tanlinellodd y Canghellor fuddsoddiad yn yr economi werdd, gan gyhoeddi £20 miliwn o gymorth ar gyfer dal a storio carbon. Caiff pŵer niwclear hefyd ei ailddosbarthu fel bod yn amgylcheddol gynaliadwy ac felly gall gael mynediad i ffrydiau cyllid tebyg i ynni gwyrdd.

Cyhoeddodd y Canghellor sefydlu Great British Nuclear i alluogi prosiectau niwclear, i gefnogi diwydiant niwclear y Deyrnas Unedig a rhoi cyfleoedd i fuddsoddi.

Cymorth i Wcráin

Mae'r Llywodraeth yn darparu £5bn ychwanegol ar gyfer blaenoriaethau amddiffyn a diogelwch cenedlaethol dros y 2 flynedd nesaf. Mae hyn i gydnabod y gwaethygiad yn yr amgylchedd diogelwch lle mae'n rhaid i'r Deyrnas Unedig fedru atal ac amddiffyn rhag bygythiadau cynyddol, fel y disgrifir yn yr Adfywiad Adolygiad Integredig. Mae'r dyraniad cyllideb hwn yn amlygu bwriad y Llywodraeth i anrhydeddu ei hymrwymiadau i fuddsoddi 2.5% o'r GDP mewn amddiffyn dros yr hirdymor.

Codi'r Gwastad – Parthau Buddsoddi

12 parth buddsoddi newydd, gydag o leiaf un yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru, pob un gyda mynediad i werth £80 miliwn o gymorth codi'r gwastad.

Benthyca cyhoeddus

Mae dyled net y sector cyhoeddus bron yn £2.5 triliwn ar hyn o bryd ac mae rhagolygon yr OBS yn rhagweld y bydd yn cyrraedd 100.6% o GDP yn 2022-23.

Bydd benthyca yn parhau yn uwch yn y cyfnod nesaf ond bydd yn gostwng dros y rhagolwg yn cyrraedd £49.3bn (1.7% o GDP) erbyn 2027-28.

*I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â: Penaethiaid Polisi a Materion Allanol*

*Laura Courtney: Laura-Coutney@chcymru.org.uk*

*Rhea Stevens: Rhea-Stevens@chcymru.org.uk*